

Polisi adborth Ysgol Pen-y-Garth Mawrth 2019

Mae cynnydd disgyblion yn seiliedig nid yn unig ar weithred gwybyddol ond yn weithred emosïynol. Trwy adnabod anghenion ein disgyblion yn dda ac yn eu trin fel unigolion byddwn yn magu teimlad o berthyn sy'n hybu'r amgylchfyd dysgu orau.

Amcanion

Yn Ysgol Pen-y-Garth rydyn ni'n sicrhau bod adborth yn bwrpasol, yn sbarduno disgyblion i wella ac yn hylaw i'r staff.

Adborth ac asesu effeithiol yw un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol i wella dysgu. Mae gwaith ymchwil yn dangos nad yw tudalennau o adborth ysgrifenedig yn golygu bod disgyblion yn cynhyrchu gwaith o safon uwch.

Byddwn yn defnyddio'r dulliau adborth canlynol pryd mae'n briodol ac yn ymddiried yn mhroffesiynoldeb ein staff er mwyn sicrhau bod ein disgyblion yn:-

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Pwrpas Adborth, Asesu a Marcio (AAM)

"If demonstrating evidence is the one reason for marking rather than aiding students' progress haven't we lost sight of our purpose as teachers?" Ross Morrison McGill

- Mae marcio **crynodol** yn cyfeirio at werthuso darn o waith yn ôl meini prawf llwyddiant
- Mae marcio **ffurfiannol** yn cyfeirio at sylwadau ynglyn â ble mae'r disgybl er mwyn gwella'r dysgu
- Pwrpas adborth effeithiol yw cael y disgyblion i weithredu ar y sylwadau er mwyn gwella eu dysgu
- Dylai adborth alluogi disgyblion i weithredu bob tro
- Mae'n gylch sy'n hanfodol i lwyddiant y disgybl

Rôl yr athro:-

1. **Gwella'r dysgwr nid y darn o waith**
2. Mae'r **Athro John Hattie** yn dweud ei fod yn bwysig, **"for the teacher to communicate the intentions of the lessons and the notions of what success means for these intentions."** Felly dylwn sicrhau bod meini prawf llwyddiant a nod y dysgu yn glir i bob disgybl

3. Darparu adborth amserol i'r disgyblion sy'n adeiladol gan osod her pellach lle'n briodol
4. Darparu adborth clir a dealladwy er mwyn i'r disgyblion allu gweithredu arno
5. Darparu adborth sy'n sbarduno a datblygu'r disgyblion i wella – efallai trwy eu hatgoffa o beth maen nhw eisoes wedi'i gyflawni
6. Pwysleisio rôl y disgyblion yn eu dysgu eu hunain
7. Deall pan fod *camgymeriad* yn *gamsyniad* a gwybod sut i newid y dysgu a delio gyda hyn
8. Deall bod marcio gwaith yn dweud wrthyhych chi pa mor effeithiol oedd eich dysgu ac os yw disgyblion wedi deall y cysyniadau
9. Defnyddio'r wybodaeth ynglyn â chynnydd y disgyblion fel mewnbwn ar gyfer cynllunio'r camau nesaf yn y broses ddysgu
10. Gweld gwerth mewn camgymeriadau fel cyfle i ddweud "Dim eto" a magu diwylliant o feddylfryd twf (i'w hunain a'u disgyblion)
11. Cymryd cyfrifoldeb dros wella eu harfer eu hunain

Rôl y disgybl

1. Gweithredu ar yr adborth i wneud cynnydd **dros gyfnod o amser**
2. Gwerthfawrogi pwysigrwydd gwaith caled a gweld gwerth yn ansawdd eu gwaith
3. Ymateb wrth ail-wneud y dasg neu rhan o'r dasg a gwella'r darn o waith trwy ail-ddrafftio neu gywiro gwallau
4. Deall bod y pwyslais arnyn *nhw* i sicrhau eu bod nhw wedi rhoi o'u gorau cyn cyflwyno eu gwaith

Hunan asesu / Asesu cyfoedion

Mae'n rhaid dysgu sgiliau hunan asesu ac asesu cyfoedion – nid ydynt yn bethau sydd yn gallu digwydd heb arweiniad. Byddwn yn modelu gwaith da a rhannu arfer dda disgyblion eraill. Mae'n rhaid i'r disgyblion wybod beth sy'n ddisgwyliedig er mwyn ceisio ei efelychu.

Gallent:-

1. Farcio gwaith eu hunain gyda goleuadau traffig / wyneb hapus
2. Ysgrifennu WWW (beth aeth yn dda) EBI (gwell byth os)
3. Lenwi grid MPLI
4. Uwcholeuo mewn gwahanol liwiau enghreifftiau o wahanol sgiliau (marcio enfys)
5. Asesu gwaith cyfoedion gan ddefnyddio'r technegau uchod

Dulliau o adborth awgrymiedig:

"Feedback should be more work for the recipient than the donor," Dylan Wiliam

Adborth ar lafar	Mae adborth uniongyrchol yn y fan ar lle yn hynod o effeithiol gan ei fod yn digwydd yn syth yn lle dydd / dyddiau yn ddiweddarach
Côd marcio	<ul style="list-style-type: none"> • ✓ ar bwys gwaith cywir • Gwall / gwaith anghywir yn cael ei uwchleuo yn OREN • Darn o waith arbennig o dda yn cael ei uwchleuo yn WYRDD NI FYDD UNRHYW SYLWADAU YSGRIFENEDIG YN Y LLYFRAU O GWBL. Er hyn disgwylir cwestiwn ymestynnol er mwyn herio disgyblion lle bod e'n briodol
Marcio byw un i un	Mae marcio yn y fan a'r lle gyda'r disgybl yn ei alluogi i weithredu ar unwaith ar sylwadau llafar yr athro a gwella'i waith ar unwaith
Marcio sampl byw	Dewis darn o waith (yn sensitif) a'i farcio yn fyw o flaen y dosbarth e.e. gan ddefnyddio apple airplay mirroring / visualiser er mwyn galluogi disgyblion i weld sut mae'r athro yn marcio'r gwaith a sut gallent wella eu gwaith eu hunain
Taflen Adborth Dosbarth Cyfan	<p>Trwy ddarllen gwaith pob disgybl a llenwi'r daflen Adborth Dosbarth Cyfan (Atodiad 1) gall athrawon roi adborth i'r dosbarth ar ddechrau'r wers nesaf.</p> <p>Wrth wneud hyn does dim rhaid cofnodi sylwadau a champau nesaf ar waith unigolion ond yn hytrach rhoi adborth dosbarth cyfan ar:-</p> <ol style="list-style-type: none"> Waith i'w ganmol gan unigolion sydd wedi cyflawni gwaith llwyddiannus Camddealltwriaethau am brif syniadau Unrhyw wallau ieithyddol / rhifyddol cyffredin Cam ymlaen a ffordd i wella <p>Mae e'n rhoi trosolwg o ddealltwriaeth y dosbarth yn ystod y wers gan roi amser i'r athro weithio'n uniongyrchol gyda disgyblion ADY / absennol / wedi cael anhawster.</p> <p>Mae'n gyfle rhyddhau disgyblion sydd wedi deall y gwaith yn dda i helpu rhai sydd angen cymorth ychwanegol (dysgu cyfoedion) neu eu hymestyn ymhellach.</p> <p>Mae e hefyd yn rhoi cyfle i athrawon myfyrio ar eu harfer trwy ystyried WWW (beth aeth yn dda) a EBI (gwell byth os)</p>
Ymateb i'r Daflen Adborth yn y wers nesaf	Os yw disgyblion yn derbyn adborth mae'n hanfodol bod amser ganddynt weithredu ar y sylwadau. Byddwn yn clustnodi amser ar ddechrau bob gwrs pan fod angen ar ddisgyblion ymateb i sylwadau'r athro.
Uwchleuo RIDI	Defnyddio gwyrdd neu oren er mwyn nodi'r lefel o ddealltwriaeth
Blwch Golygu (ysgrifennu estynedig)	Dewiswch ran o'r gwaith a gosodwch darn o bapur ar ei ben fel y gallwch ei godi. Marniwch y gwaith o dan yn fanwl iawn, gan gynnig adborth penodol a diagnostig. Mae'n rhaid i'r disgybl gael amser i weithredu ar y sylwadau a chynhyrchu gwaith o safon ar y darn o bapur newydd sydd wedi'i ludo dros y top
Cwis / prawf / gweithgareddau hunan-farcio a gwirio ar-lein.	Mae gwefannau / apiau fel Kahoot, Quizlet a Diagnostic Questions yn ddefnyddiol iawn i helpu disgyblion gymryd perchnogaeth dros eu dysgu. <i>Daisy Christodoulou, "...multiple choice questions can be very powerful when used for classroom formative assessment, because the existence of several wrong answers allows the teacher to identify who has grasped a new concept and who is still labouring under a common misconception."</i>

Llyfryddiaeth

Barton, Craig – How I wish I'd taught maths

DFE – Reducing teacher workload

Eliot et al dros EEF a Phrifysgol Rhydychen, 2016

Macpherson, Robin and Hendrick, Carl – What does this look like in the classroom?

Morrison McGill, Mark (2017) – Mark.Plan.Teach @TeacherToolkit

Wiliam, Dylan- Is the Feedback You're Giving Students Helping or Hindering?

Fletcher-Wood, Harry – Responsive Teaching